

CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 28ain Gorffennaf 2026

1. Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

2. **Ymddiheuriadau** - Eirian Allport, Ken Williams, Eleri Owen, Siân Evans, Gwenno Griffiths a Guto Huws.

Presennol - Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones (is-gadeirydd), Elias Jones, Rhys Jones, Eilir Evans, Thomas Williams, Siôn Tomos, Gethin Roberts, Cyng. Dafydd Davies, Nia Jones (clerc)

3. **Datgan buddiant** – Siôn Tomos – eitem 6 ceisiadau cynllunio.

5. **Cofnodion cyfarfod 16eg Mehefin 2026** – Cynigwyd gan Eifion Jones ac eiliwyd gan Elias Jones fod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn Codi**

1. Ynys Wylt - Aaron Hughes wedi methu cael gafael ar Marian Elias i weld os yw yn gwybod unrhyw beth am hanes y darn tir ond am dal i drio. Datganiad o wirionedd wedi ei baratoi ar gyfer Elias Jones i'w arwyddo, gan fod y cyfreithwyr wedi colli'r gwaith papur gwreiddiol oedd wedi ei rhoi iddynt. Nia Jones wedi cysylltu â Jones Peckover am dystiolaeth eu bod wedi bod yn talu rhent ayyb am hawl saethu ar y tir. Disgwyl am ymateb ganddynt.
2. Mynediad i'r fynwent - Nid oedd dim pellach i'w adrodd ar y mater.
3. Pont Pantafon – y gwaith wedi ei orffen a gwaith da wedi ei wneud yna.
4. Arwydd cyflymder - rhan ohono wedi ei osod yn barod ond heb orffen y gwaith eto. Cyng. Dafydd Davies am ddilyn fyny ar bryd fydd y gwaith yn cael ei orffen.
5. Cwynion am chwyn a canclwm o gwmpas y pentrefi - Morris Williams wedi bod o gwmpas y pentrefi yn chwistrellu'r chwyn. Adrodd bod y canclwm ym Mhontllyfni yn dod o le Bwrdd Dŵr ac yn awgrymu i gysylltu â nhw i'w sortio. Mi fydd Morris Williams yn dechrau ar y gwaith o ddifa gweddill y canclwm yn y mis nesaf. Cynigwyd ac eiliwyd i hyn barhau er mwyn cael ar ben y broblem.
6. Ffoes Simbil – swyddog y cyngor wedi bod ond y tywydd wedi bod yn sych felly methu gweld yn iawn felly am ddod nôl pan fydd y tywydd yn waeth.
7. Golau Nadolig - Cyng. Dafydd Davies am holi Cyngor Gwynedd i osod man i gael golau ar gyfer coeden Nadolig ger y diffib ym Mhontllyfni.
8. Goryrru yn Nhaf Lôn - wedi derbyn grant gan Gyngor Gwynedd er mwyn prynu'r arwydd ac wedi ei archebu a thalu amdano. Bydd Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r Cyngor Cymuned am hyn.
9. Goryrru yng Nghlynnog Fawr - hyn mewn llaw. Andrew Gregson i fod i ddod allan i ymweld. Cynnig ac eilio i gysylltu ag o am hyn - adroddodd Cyng. Dafydd Davies y bysai o yn cysylltu i gael cyfarfod. Pan fydd y garej

Arwyddwyd (Cadeirydd)

Dyddiad

yn gwerthu petrol rhagweld hyn yn mynd yn waeth. Cynnig y dylid rhoi "speed bumps" yn y pentref hefyd gofyn a oes modd cael mwy o arwyddion 20mya wedi eu gosod?

10. System CCTV - heb gael cyfle i siarad gyda phwyllgor y neuadd am hyn. Gofyn i Siôn Tomos adrodd am hyn wrth y pwyllgor a'i drafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf.
11. Gwyneb bwrdd arwydd Pontllyfni – dilyn fyny ar hyn hefo Designer Signs
12. Byrddau picnic - gofyn am gael byrddau picnic yn y cae chwarae ym Mhontllyfni ac ar lan môr. Cynigwyd ac eiliwyd i archebu dau fwrdd a'i roi yn erbyn y grant Cyngor Gwynedd os bydd yr arian i gyd heb ei wario.
13. Grid Cenedlaethol - yn dilyn cynnal cyfarfod cyhoeddus ar 12fed Gorffennaf gyrrwyd y cofnodion i'r grid cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Heb dderbyn ymateb eto i hyn. Angen dilyn fyny ar hyn er mwyn cael atebion i'r pryderon a godwyd. Cynigwyd y dylid holi Unllais Cymru beth mae'r Cyngor Cymuned yn cael ei wneud rhan bod yr ymgynghoriad drosodd. Cynnig i ofyn i'r Grid faint o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac a oes adborth i gael. Western Link 1 - cynnig y dylid cysylltu â thirfeddianwyr ayyb o'r ardal Western link 1 ar sut wnaethpwyd pethau yma.

6. Ceisiadau cynllunio - 4 Llys Eben, Clynnog Fawr - estyniad unllawr to fflat newydd i'r ochr ar cefn - bu i Siôn Tomos adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth hon - trafodwyd ac nid oedd dim gwrthwynebiad.

7. Materion ariannol

a) Sefyllfa ariannol ar 23ain Gorffennaf 2026

Cyfrif cadw (elusen)	£160.22
Cyfrif cyfredol	£21,021.77

b) Anfonebau i'w talu – Lingo – cyfieithwyr = £120.00

- Morris Williams – chwistrellu chwyn - £325.00

Cytunwyd i'r clerc dalu'r anfonebau uchod.

8. Bioamrywiaeth - gwaith mewn llaw i ddechrau'r broses o waredu'r canclwm sydd o gwmpas yr ardal.

9. Gohebiaeth - pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth a thrafodwyd.

- E-bost - pryder ynglŷn â llwybr Cae Bont gyhoeddus anghyraeddadwy i'r anabl, pramiau ayyb - trafodwyd y mater. Teimlad na all y Cyngor Cymuned wneud dim a chynigwyd i'w basio ymlaen i Swyddog Cyngor Gwynedd, ac ymateb i'r person a yrrodd yr e-bost i ddweud hyn a mynd nôl ati pan gawn ymateb. Egluro wrthynt ein bod wedi torri'r coed i wneud y ffordd yn saffach gan ein bod yn gyfyngedig arnom i wneud dim am y llwybr. Hefyd Cyng. Dafydd Davies am ofyn i Dîm Tacluso grafu a thacluso'r gwair

- Rhian Williams Cyngor Gwynedd – Safle Bws Aberdesach – adrodd bod cael safle bws ar y rhaglen waith am eleni.

- Parc Cenedlaethol Eryri – Gwasanaeth cydymffurfiaeth cynllunio

10. Materion aelodau - Eifion Jones - cerbs sydd wedi eu gosod ar y bypass mae 'na dyllau lle mae dŵr glaw i fod mynd i lawr wedi llenwi hefo gwair ayyb sy'n golygu bod pyllau dŵr mawr a peryglus ar y ffordd. Cyng. Dafydd Davies am gysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn. Eilir Evans - holi pryd fydd petrol / diesel yn cyrraedd garej Clynnog - Cyng. Dafydd Davies adrodd gobeithio y bydd yna ddiwedd wythnos yma. Thomas Williams - yr arwyddion baw ci ar lwybr lan môr Pontllyfni ddim yn gweithio. Llauer iawn o faw cŵn ar y llwybr. Cynnig i roi dispenser hefo bagiau ar ddechrau'r llwybr. Hefyd cyflwr y llwybr yn ddifrifol ac angen ei dorri - gofyn i'r contractwyr torri llwybrau pryd mae am fynd i'w dorri.

Arwyddwyd (Cadeirydd)

Dyddiad

Llwybr arfordir Aberdesach angen ei dorri - Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol ac angen cysylltu hefo Dewi Owen am hyn. Rhestr enwau Cynghorwyr erbyn mis medi plŷs. Aaron Hughes - loriau yn defnyddio ffordd gul ger lle tatŵs sy'n chwalu'r waliau. Arwydd dim loriau yn rhy bell ar y ffordd ar ôl iddynt droi sy'n rhy hwyr iddynt fedru troi nôl. Cyng. Dafydd Davies am gysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn.

11. Materion eraill – dim yn codi

12. Cyfarfod nesaf - Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 15fed Medi 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Clynog Fawr.

Arwyddwyd (Cadeirydd)

Dyddiad